# Abel Ffowc – NID bali ffŵl

## W. J. Edwards a'r gwreiddiol Abel Ffowcs Williams, 1901-1989

OHERWYDD cyflwr ei iechyd gorfu i Abel Ffowcs (neu Taid i lawer ohonom yng Nghymru ac Awstralia) a'i briod Grace (Gwenno fyddai'i henw yn llythyrau'i gŵr) gefnu ar Gymru ym 1964 ac yntau'n 63 oed. Ymadael â Llwyngwril a Meirionnydd a threulio deng mlynedd yn gofalu am eglwysi Presbyteraidd yn Nhasmania cyn ymddeol i Sydney lle bu farw ar Ionawr 30 ar ôl llesgedd hir.

Ni fyddech yn hir yng nghwmni Abel cyn clywed am ei gartref yn y Mostyn Isa, Brynrhydyrarian, Llansannan, ac am gymdeithas ddiwylliedig bro Hiraethog. Soniodd lawer am Dudur Aled, William Salesbury, Gwilym Hiraethog a Henry Rees ac ymfalchïai'i fod wedi'i fagu yn yr un ardal â'r mawrion yma.

Wedi cyfnod yn gweithio ar fferm ei hynafiaid troes am Ysgol Clynnog yn y dauddegau cynnar i'w hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth ac ni flinai ganmol y Prifathro R. Dewi Williams a'i gynorthwydd, W. Ffowc Evans.

Yr oedd yno do disglair yn hen ysgol Eben Fardd ar y pryd, Meic Parry, W.J. Thomas, Glyn Jones, R. Bryn Williams, Huw Llewelyn Williams ac R. Dwyryd Williams, yr unig un sy'n goroesi.

Canodd glodydd yr hen academi yn *Ysgolion a Cholegau y Methodistiaid Calfinaidd* a olygwyd gan William Morris a diolchai am i awdur *Clawdd Terfyn* annog Bryn, Glyn, Huw Llew ac yntau i gystadlu yn eisteddfodau Eifionydd.

Yr oedd wrth ei fodd hefyd am i'r Prifathro ei anfarwoli mewn englyn cofiadwy a luniodd Dewi Williams wedi i Abel fynd i drên Lerpwl mewn camgymeriad yng ngorsaf Caer:

*Abel Ffowc, y bali ffŵl, — a neidiodd*
*Mewn munudyn trwsgl,*
*Yr hen larp, i drên Lerpwl,*
*Hynny liw dydd, hen lo dwl.*

Ar ôl cyfnodau pellach o ymbaratoi yn Aberystwyth (lle cyfarfu â'i gyfaill mawr Gomer Roberts) a'r Bala (daeth dan gyfaredd y Prifathro David Phillips yno) bu Abel yn gweinidogaethu yn Llangadog am chwe blynedd a chanodd sawl cerdd i glodfori Dyffryn Tywi.

Ymddangosodd rhai ohonynt yn ei gyfrol gyntaf o gerddi *Daear a Nef* (1949) a gyhoeddwyd gan Wasg yr Arad, Tywyn, Meirionnydd, gwasg Idwal Jones (Llanrwst) y byddai'n dda i rywun fanylu ar ei hanes.

* * *

DAETH Abel i Feirionnydd yn 1937 i ofalu am bedair eglwys Bresbyteraidd yn ardal Llwyngwril a buan y daeth i sylw fel bardd, llenor, pregethwr nodedig ac un o arloeswyr *Cymdeithas Ecwmenaidd Cymru*, gan sgrifennu un o bamffledi cynnar y Gymdeithas. Ac yng nghwmni Gwenno teithiodd Gymru i arloesi gyda gwaith Cymorth Cristnogol.

Yn 1945 golygodd *Ffyrdd a Ffydd* lle sgrifennodd cynrychiolwyr saith enwad am eu traddodiadau gwahanol. Drwy Gwenno y daeth i wybod am Y Crynwyr a bu'n ymwneud llawer â Chymdeithas y Cyfeillion yng Nghymru ac Awstralia.

Byddai'n addoli gyda'r Crynwyr yn Sydney yn aml am mai hwy 'oedd yn siarad orau â'm cyflwr'. Cas ganddo gulni o bob rhyw ac addolai hefyd gyda'r Pabyddion a'r Anglicaniaid yn ogystal ag arwain yr oedfaon yng nghapel Cymraeg Sydney yn gyson.

Pan oedd Abel yn gadael Llwyngwril gwerthodd y rhan fwyaf o'i lyfrau i siop Galloways, Aberystwyth am un bunt ar ddeg. Yn fuan wedyn prynodd fy nghyfeillion Tedi Millward, Tegwyn Jones a minnau werth deugain punt ohonynt rhyngom a bu gwybod am elw Galloways bron â'm gyrru i agor siop lyfrau ail law!

Yn 1974 pan ddaeth Abel a Gwenno atom i de i Lanuwchllyn yr oedd dagrau ar ei ruddiau pan welodd ei lyfrau ar silffoedd fy stydi.

Drwy'i gyfeillgarwch deugain mlynedd â 'nhad yng nghyfraith Harri Williams y deuthum i i nabod Abel a phan fu H.W. farw yn 1983 union chwe blynedd i'r diwrnod o'i flaen gofynnodd yr hen gyfaill imi ysgrifennu ato am fod cynifer o'i hen gyfeillion wedi newid byd.

* * *

GOFIDIAI fod Cymru wedi dilyn gormod ar John Calvin ac mewn llythyr yn 1981 ag yntau wedi bod drwy weithiau'r diwygiwr dyma'i sylw: 'Diolchaf i Ragluniaeth Fawr y Nef na ddarllenais hwy yn ifanc, neu buaswn wedi bod yn fwy o boen i'r saint nag y bûm i, oherwydd y duedd unbenaethol gref sydd ynof.'

Yn ei lythyr nesaf dywedai 'ei bod hi'n fil pwysicach i'r saint fynd at Tolstoy nag at Calvin!'

Wrth gwyno droeon am i'r ffwndamentalwyr fod yn boen iddo yng Nghymru ac Awstralia fe ddywed mewn un llythyr y talai iddynt ddarllen ysgrif wych Puleston Jones, *Arafwch Buddugoliaeth yr Efengyl* a luniwyd yn 1888.

Cyhoeddodd Abel gyfrol o ysgrifau a cherddi, *O Ben Draw'r Byd*, yn 1979, ond ers hynny parhaodd i lunio cywyddau, englynion, cwpledi, emynau, telynegion ac ysgrifau ac ymddangosoddd llawer ohonynt yn *Y Goleuad* a chylchgronau eraill. Dylid dethol ysgubau cynhaeaf yr henwr aeddfed a'u gosod mewn cyfrol arall.

# COLIN GRESHAM

## ELIS GWYN a'r cymwynaswr mawr

DYN CWBL eithriadol oedd Colin Alastair Gresham. Yn wir, yr oedd rhywbeth gwyrthiol ynddo. Ymgartrefodd yn Eifionydd fel un anfonedig, a dechreuodd baratoi llyfr ar hanes y cwmwd dros drigain mlynedd yn ôl, yn 1928. Erbyn hyn, tŷ heb ei lwyr ddodrefnu ydyw trigfan yn y fro heb gopi o'i lyfr mawr a hynod ar ei hanes.

Mae'r dyfyniad o ddyddiadur Eben Fardd ar ddechrau'r gyfrol yn diffinio'i faes i'r dim: *'My favourite study . . . has been the ancient state of Wales, especially that part called Eifionydd and Arfon, Lleyn too, or in one word Carnarvonshire with a marked preference for Eifionydd'*.

Mae llaweroedd yn byw yn Eifionydd heddiw heb wybod enw'r cwmwd, ac yn sicr heb wybod enw trefgordd Abercain, Pencoed, Treferthyr, neu Benyfed. Nid ydynt ym medru Cymraeg chwaith. Dysgodd yntau'r iaith yn drwyadl a dyfod yn Gymro, a hynny, fel y dywedodd yr Esgob G.O. Williams yn ei deyrnged odidog iddo ar ddydd ei angladd, ar adeg pan nad oedd dosbarth dysgwyr na gwersi radio na chwrs Wlpan.

Daeth union dermau rhaniadau tir yn ail natur iddo, ac yr oedd yn mwynhau enwau lleoedd, hyd yn oed yn eu horgraff ecsotig ganoloesol. Ysgrifennai yn Saesneg, ond ni fethai unrhyw fanyldeb enw: 'Moel Ehedog', nid 'Moel Hebog'.

* * *

FEL Y nodwyd gan y diweddar John Griffith Williams yn ei ragair i'r ddarlith 'Teulu'r Trefan', troedigaeth ryfedd a gafodd y Colin Gresham ifanc pan ganfu weithiwr ymysg adeiladwyr ei gartref newydd heb fedru gair o Saesneg, 'a phrynodd lyfr Caradar ar ddysgu'r Gymraeg'.

Er iddo ddilyn cwrs pensaerniaeth ym Mhrifysgol Llundain, dilyniant i'r penderfyniad cynnar hwnnw fu gweddill ei fywyd, yr ymroi i fywyd y wlad a hanes y fro.

Mae'n rhaid bod ganddo feddwl eithriadol o eglur i fedru datrys a dehongli hynt a helynt teuluoedd a maith gymhlethdod perchnogaeth tir. Prin y cafwyd dim byd tebyg erioed gan unrhyw un y tu allan i adrannau hanes y prifysgolion.

Ar wahân i 'Eifionydd', ei gampwaith, cyhoeddodd gyfrol fawr arall ar gerfiadau canoloesol yr eglwysi, a bu'n gyfrannwr cyson i Drafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon, y bu hefyd yn Swyddog Cloddio iddi. Yn ystod hanner canrif bodolaeth y Gymdeithas hyd eleni, cyfrannodd o leiaf bymtheg o 'bapurau' neu erthyglau i'r Trafodion, yn ogystal ag aml nodiadau achlysurol.

Bu'n aelod ffyddlon am flynyddoedd o bwyllgor Cymdeithas Diogelu Harddwch Cymru yn y sir, ac yr oedd yntau'n ŵr tiriog, yn amaethu Llwyn yr Hwch yn Nant Gwynant a Phenstumllyn yn ymyl Cricieth.

Ac yr oedd yn delynor. Ymddiddorai yng nghwmni drama Cricieth a recordiodd alawon ar y delyn ar gyfer cyflwyniad 'Eisteddfod Bodran'. Wedyn, heb sôn dim am y peth, trefnodd a thalodd am offer sain i'r un ddrama yn Eisteddfod 1959 yng Nghaernarfon.

Y llynedd cafodd fy ngwraig a minnau'r fraint o ymchwilio rhywfaint iddo ar gyfer ei erthygl olaf i'r Trafodion, a fydd efallai yn ymddangos eleni. Diolch i ofal Guto Roberts, mae darluniau ohono yn ei gynefin wedi eu diogelu ar ffilm. Gŵr bonheddig ydoedd.